**Drafft Cylch Gorchwyl – Grŵp Llywio'r Iaith Gymraeg Sir Ddinbych**

**Pwrpas y Grŵp**

- Darparu cymorth gwleidyddol/ swyddog i ddarpariaeth a gweithrediad y Strategaeth Iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych.

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:**

- Cynorthwyo'r Cyngor â datblygiad Strategaeth Iaith Gymraeg ar gyfer Sir Ddinbych.
- Monitro cynnydd wrth weithredu Safonau'r Iaith Gymraeg.
- Cytuno ar adroddiad blynyddol ar gynnydd y Safonau i Gomisiynydd y Gymraeg.
- Cynorthwyo i gwmpasu a blaenoriaethu argymhellion yr Archwiliad i mewn i Gynllun Gweithredu a gaiff yna ei ddatblygu a'i fonitro.
- Gwneud awgrymiadau i'r Cabinet a/ neu'r Cyngor pan fo'n briodol.
- Cefnogi'r Iaith Gymraeg a'i datblygiad yn Sir Ddinbych.
- Ehangu a hyrwyddo diwylliant dwyieithog o fewn y sefydliad.
- Monitro cynnydd materion corfforaethol eraill yn ymwneud â'r Iaith Gymraeg. E.e. gwasanaeth cyfieithu, hyfforddiant Cymraeg, mentora.
- Chwarae rhan weithredol yn natblygiad meysydd o waith allweddol eraill yn ymwneud â'r Iaith Gymraeg – fframwaith Mwy Na Geiriau (Iechyd a Gofal Cymdeithasol), Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg, Cynllun Datblygu Lleol.
- Chwarae rhan ragweithiol mewn fforymau ledled y sir, megis y Fforwm Iaith Gymraeg Sirol, Menter Iaith Sir Ddinbych.
- Mae disgwyl i Aelodau adrodd yn ôl i'w grwpiau gwleidyddol yn dilyn y cyfarfodydd.

**Aelodaeth o'r Grŵp:**

Bydd rhaid i'r Grŵp benodi Cadeirydd ac Is- Gadeirydd. Bydd y Grŵp yn cynnwys:

- Aelod Cabinet Arweiniol sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg.
- Cynrychiolwyr o bob grŵp gwleidyddol.
- Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau
- Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (â chyfrifoldebau strategol dros yr Iaith Gymraeg)
- Arweinydd Tîm - Rheoli Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd
- Cynrychiolwyr o Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cedwir yr hawl gan y Grŵp i wahodd swyddogion/ Aelodau ychwanegol pan fo'n briodol.

**Rheoleidd-dra'r cyfarfodydd:**

Cynhelir y cyfarfodydd bob chwarter yn Neuadd y Sir, Rhuthun.

Bydd cofnodion yn cael eu cynhyrchu o bob cyfarfod grŵp llywio.

Bydd papurau ar gael wythnos cyn y cyfarfod.